Cylchlythyr Byrddau Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro

Gwanwyn 2018

Wythnos Genedlaethol Diogelu 2018

Adolygiad o Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan

Adolygiadau Arfer Plant wedi'u Cyhoeddi

Rhowch Stop Arni Nawr! Gweithdai Ymwybyddiaeth o Gam-drin Plant yn Rhywiol

Is-grŵp Camfanteisio

Archwiliadau

Adroddiad Blynyddol Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro

Wythnos Genedlaethol Diogelu 2018

Cynhelir Wythnos Genedlaethol Diogelu rhwng 12 a 16 Tachwedd eleni. Camfanteisio fydd y brif thema eleni. Mae'r Uned Fusnes yn trefnu cynhadledd gyda gweithdai rhyngweithiol i blant a gaiff ei chynnal ddydd Mercher 14 Tachwedd a chynhadledd i weithwyr proffesiynol a gaiff ei chynnal ddydd Iau 15 Tachwedd. Os hoffai eich asiantaeth roi cyflwyniad yn ystod un o'r cynadleddau hyn neu unrhyw awgrymiadau ar gyfer y gweithdai rhyngweithiol, cysylltwch â'r Uned Fusnes – ceir y manylion cyswllt ar ddiwedd y cylchlythyr hwn.

Cynhelir seremoni wobrwyo nos Wener 16 Tachwedd. Diben y gwobrau hyn yw cydnabod gweithwyr proffesiynol ac aelodau'r cyhoedd sydd wedi gwneud cyfraniad mawr at ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Os hoffech chi enwebu rhywun i dderbyn un o'r gwobrau hyn, anfonwch eich enwebiad i'r Uned Fusnes.

Mae'r gwaith yn mynd rhagddo i benderfynu ar fanylion olaf y rhaglen ar gyfer yr wythnos, ond os hoffech chi gael copi pan fydd wedi'i chymeradwyo, neu os hoffai eich asiantaeth gynnal digwyddiad yn ystod yr wythnos, cysylltwch â'r Uned Fusnes.

Adolygiad o Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan

Mae adran y gweithdrefnau sy'n ymwneud â'r Ddyletswydd i Adrodd bellach wedi cael ei llunio a'i thrafod yn y grŵp llywio cyn cytuno arno yng nghyfarfod y bwrdd projectau ym mis Medi. Yna caiff y drafft ei anfon i'r rhanbarthau i roi adborth. Oherwydd anawsterau defnyddio'r hyb ar-lein, caiff y broses ei gwneud o hyn ymlaen trwy e-bost. Lluniwyd amserlen ddiwygiedig a gellir gweld hon yn y cylchlythyr y prosiect. Os hoffech chi dderbyn copi, cysylltwch â'r Uned Fusnes.

Ar 6 Gorffennaf rhoddodd Kate Bishop, Rheolwr Busnes, enedigaeth i fachgen bach o'r enw Beauden. Mae pawb o'r bwrdd yn anfon dymuniadau gorau i Kate ar gyfer eu cyfnod mamolaeth.

Mae Nicola Jones, Cydlynydd Busnes y Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol yn cyflawni rôl y Rheolwr Busnes yn ystod absenoldeb Kate.

Adolygiadau Arfer Plant wedi'u Cyhoeddi

Cyhoeddwyd dau Adolygiad Arfer Plant gan y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol ym mis Awst.

AAP 04/2016 – awgrymwyd argymhellion gan gynnwys chwilfrydedd proffesiynol, cofnodi priodol, cadw gwybodaeth a rhannu gwybodaeth.

AAP 02/2014 – awgrymwyd argymhellion gan gynnwys llais y plentyn, rhannu gwybodaeth a chynnal asesiadau priodol

Mae copïau o'r adroddiad ar gael ar gais neu gellir eu lawrlwytho o'r wefan.

Project atal cam-drin plant yn rhywiol yw Rhowch Stop Arni Nawr! Cymru a gynhelir gan yr elusen diogelu plant, Sefydliad Lucy Faithfull. Mae ganddynt profiad helaeth o gyflwyno gweithgareddau atal ac ymwybyddiaeth ynglŷn â cham-drin plant yn rhywiol ar draws Cymru.

Gan weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, mae Rhowch Stop Arni Nawr! yn cynnal sesiynau ymwybyddiaeth ac atal ynglŷn â cham-drin plant yn rhywiol yng Nghaerdydd a'r Fro i weithwyr proffesiynol a gweithwyr rheng flaen. Yn ogystal, byddant yn gweithio gyda'u partneriaid presennol fel sefydliadau cynnal, megis canolfannau plant, i gyflwyno'n uniongyrchol i rieni a gofalwyr.

Dyddiadau'r sesiynau ar gyfer gweithwyr proffesiynol:

Dydd Llun 24 Medi 2018, 13:30-17:30 yng Nghaerdydd
Dydd Iau 23 Hydref 2018, 09:00-13:00 yn y Fro
Dydd Llun 12 Tachwedd 2018, 09:00-13:00 yng Nghaerdydd
Dydd Llun 10 Rhagfyr 2018, 13:00-17:00 yng Nghaerdydd
Dydd Gwener 1 Chwefror 2019, 13:00-17:00 yn y Fro
Dydd Mercher 6 Mawrth 2019, 09:00-13:00 yng Nghaerdydd

Ac ar gyfer y rhieni/gofalwyr:

Dydd Mercher 21 Tachwedd 2018, 10:00 – 12:30 yn y Fro
Dydd Llun 14 Ionawr 2019, 15:30-18:00 yng Nghaerdydd
Dydd Mawrth 19 Chwefror 2019, 10:00 – 12:30 yng Nghaerdydd
Dydd Llun 11 Mawrth 2019, 15:30-18:00 yng Nghaerdydd

Pob lleoliad i'w gadarnhau. Os hoffech chi ddod i un o'r sesiynau hyn, cysylltwch â'r Uned Fusnes.

Is-grŵp Camfanteisio

Mae Is-grŵp Camfanteisio wedi cael ei sefydlu gan y byrddau. Mae'r grŵp yn cael ei gadeirio gan yr Uwch-arolygydd Stephen Murray o Heddlu De Cymru ac mae'n ystyried datblygu Strategaeth Camfanteisio ar gyfer Caerdydd a'r Fro.

I gael mwy o wybodaeth am waith yr is-grŵp hwn neu os hoffech chi gyfranogi, cysylltwch â'r Uned Fusnes.

I gael mwy o wybodaeth am waith yr is-grŵp hwn neu os hoffech chi gyfranogi, cysylltwch â'r Uned Fusnes.

Archwiliadau

Mae'r Is-grŵp Archwilio Plant a'r Is-grŵp Archwilio Oedolion ill dau wrthi ar hyn o bryd yn cynnal archwiliadau.

Mae'r BDORh yn archwilio nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan gartrefi gofal yng Nghaerdydd a'r Fro sy'n darparu gofal ar gyfer pobl â demensia a'r canlyniadau ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018.

Mae'r BDPRh yn archwilio pob cynhadledd diogelu plant cychwynnol yng Nghaerdydd a'r Fro o fis Ionawr 2018 i wirio a oedd y categorïau cofrestru'n gywir, yn benodol y rhai a oedd yn ymwneud â cham-drin yn rhywiol.

Adroddiadau Blynyddol wedi'u Cyhoeddi

Ym mis Gorffennaf cyhoeddodd y BDPRh a'r BDORh eu hadroddiadau blynyddol ar gyfer 2017/18, sydd ar gael ar y wefan. Mae'r adroddiadau blynyddol yn amlinellu'r cynnydd a'r cyflawniad a wnaed gan y dau fwrdd o ran eu Cynlluniau Busnes Blynyddol yn 2017/18.

Y blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Blynyddol y BDPRh ar gyfer 2017/18 oedd Effeithiolrwydd y System Diogelu Plant; Plant ar Ymyl y System Diogelu Plant; Cyfranogiad Defnyddwyr Gwasanaeth; a Gweithrediadau'r Bwrdd.

Y blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Blynyddol y BDPRh ar gyfer 2017/18 oedd Gofal Cartref a Diogelu Pobl â Demensia.

I gysylltu â'r Uned Fusnes, ffoniwch 02922 330880

neu e-bostiwch caerdyddabromorgannwgbdr@caerdydd.gov.uk